



ASTUDIAETH ACHOS WASPI – GWEITHIO AR Y CYD I SICRHAU CYNALIADWYEDD WASPI

CYFLWYNIAD

Mae strwythurau llywodraethu priodol yn elfen hollbwysig o ymsefydlu fframwaith Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Personol Cymru (WASPI) o fewn sefydliadau. Mae'r astudiaeth achos hon yn canolbwyntio ar ddatrysiadau a nodwyd gan Gyngor Sir Ddinbych.

Fe'i bwriedir i ddarparu enghreifftiau o arfer da yn hytrach na rhagnodi mesurau y dylai sefydliadau eraill eu gweithredu. Cydnabyddwn fod sefydliadau'n cael eu strwythuro'n wahanol ac y gallai fod enghreifftiau eraill o arfer da sydd yr un mor effeithiol – hoffem glywed am unrhyw enghreifftiau o'r fath er mwyn i ni allu eu rhannu.

Rydym yn ddiolchgar i Gyngor Sir Ddinbych ac yn enwedig Lisa Jones, Cyfreithiwr/Dirprwy Swyddog Monitro, am y wybodaeth a ddarparwyd i gynorthwyo i ddatblygu'r astudiaeth achos hon.

CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn archwilio ffyrdd o sicrhau ei ddefnydd parhaus o fframwaith WASPI yn y tymor hir.

Mae'r Cyngor wedi amlygu tri maes blaenoriaeth i fynd i'r afael â hwy:

- Cyfarfodydd rheolaidd ar gyfer holl Hwyluswyr ISP hyfforddedig WASPI;
- Safle Llywodraethu Gwybodaeth ar y fewnrwyd sy'n atgyfnerthu ymrwymiad y Cyngor i WASPI ac yn darparu adnoddau;
- Newidiadau i bolisiau a gweithdrefnau sefydliadol.

CYFARFODYDD RHEOLAIDD HWYLUSWYR ISP

Mae pump o weithwyr y Cyngor wedi cael eu **hyfforddi i hwyluso** datblygiad Protocolau Rhannu Gwybodaeth (Hwyluswyr ISP). Mae'r Hwyluswyr yn gweithio mewn gwahanol rannau o'r Cyngor ac fe all fod yn anodd iddynt gadw golwg ar arferion rhannu gwybodaeth a phrosiectau parhaus ar draws y Cyngor. Ateb y Cyngor i'r broblem hon yw cynnal **cyfarfodydd rheolaidd** rhwng yr holl Hwyluswyr ISP hyfforddedig. Mae hyn yn golygu y gellir trafod materion yn ymwneud â WASPI, datblygiadau parhaus yn ymwneud â rhannu gwybodaeth ac unrhyw faterion eraill cysylltiedig.

Mae hyn yn helpu'r Hwyluswyr ISP i gynnal eu gwybodaeth am fframwaith WASPI ac yn darparu **cyfrwng cyfathrebu**, gyda'r nod o gynnal dull cyson o rannu gwybodaeth personol ar draws y sefydliad.



Mae'r Hwyluswyr ISP hefyd yn aelodau o **restr bostio grŵp**, sy'n rhoi unrhyw ddiweddariadau iddynt am rannu gwybodaeth bersonol a WASPI.

Yn ogystal, pan nodir bod angen ISP, gwahoddir yr holl Hwyluswyr ISP yn y Cyngor i fynychu **cyfarfodydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen**, hyd yn oed pan fo'r datblygiadau y tu hwnt i'w maes gwaith uniongyrchol. Mae hyn yn caniatáu i'r Hwyluswyr gynnal a datblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth ym maes datblygu ISP. Mae'r dull hwn wedi bod ar waith yng Nghyngor Sir Ddinbych ers peth amser ac mae wedi profi'n fuddiol, gan roi profiad ymarferol i Hwyluswyr ISP.

SAFLE MEWRWYD – ANNOG YMWHYBYDDIAETH

Mae gan Dîm Llywodraethu Gwybodaeth Cyngor Sir Ddinbych dudalen benodol ar **safle mewnwyd y Cyngor** sy'n darparu cyngor, ymwybyddiaeth a gwybodaeth ynglŷn â Llywodraethu Gwybodaeth. Bwriedir iddi gael ei hymestyn i gynnwys fframwaith WASPI a darparu manylion am Brothocolau Rhannu Gwybodaeth a Chytundebau Datgelu Data sy'n cael eu datblygu ac sydd wedi cael eu cwblhau'n derfynol. Mae'r dudalen fewnwyd yn cynnwys manylion cyswllt ar gyfer yr holl Hwyluswyr ISP hyfforddedig WASPI.

Mae cynnwys gwybodaeth am WASPI ar y fewnwyd yn ddull o gynyddu ymwybyddiaeth ar draws y sefydliad ac annog mwy o weithwyr i ystyried pa gytundebau sydd eu hangen i gefnogi'r broses o rannu gwybodaeth bersonol.

POLISIŌU A GWEITHDREFNAU – ANNOG CYSONDEB

Mae'r Cyngor yn ystyried **adolygu a diwygio polisiau a gweithdrefnau** ar hyn o bryd, gan gynnwys ei Bolisi Diogelu Data, er mwyn sicrhau y cyfeirir at WASPI lle y bo'n briodol. Mae cynnwys WASPI mewn polisiau a gweithdrefnau yn rhan bwysig o'r broses ymsefydlu.

CASGLIAD

Mae'r camau ymarferol a nodwyd yn yr astudiaeth achos hon yn enghreifftiau o ddulliau rhad o ymsefydlu fframwaith WASPI mewn busnes sefydliad o ddydd i ddydd. Byddent yn addas i unrhyw gorff sector cyhoeddus mawr, a gallai elfennau ohonynt – adolygu polisiau a gweithdrefnau a thudalennau mewnwyd – fod yn berthnasol i sefydliadau llai yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector hefyd.